Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth

Mid Wales Corporate Joint Committee

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 12 Hydref, 2023 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Adroddiad ar Aelodaeth yr Is-bwyllgorau – Bannau Brycheiniog |
| **Diben yr Adroddiad:** | Darparu ymateb ffurfiol i Fannau Brycheiniog yn dilyn cais yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 31 Gorffennaf 2023 am gynrychiolaeth ychwanegol ar Is-bwyllgorau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Llesiant Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig |
| **Penderfyniad a Geisir:** | Nodi cynnwys yr Adroddiad a chytuno â'r argymhellion sef nad yw Aelodau a/neu Swyddogion o Fannau Brycheiniog wedi eu cynnwys yn Is-bwyllgorau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Llesiant Economaidd a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth |
| **Swyddog Cyllid:** | Duncan Hall, Swyddog Adran 151 |
| **Swyddog Cyfreithiol:** | Swyddog Monitro Clive Pinney, |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad hwn yn darparu ymateb ffurfiol i Gadeirydd Bannau Brycheiniog, Y Cynghorydd Gareth Ratcliffe, yn dilyn cais a wnaed yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 31 Gorffennaf 2023 i Fannau Brycheiniog gael ei gynrychioli ar Is-bwyllgorau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Llesiant Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 2. Cefndir

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, Rheoliadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig 2021 rhan 3 – Aelodaeth, caiff y canlynol ei nodi:

1. Aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth yw:
   (a) Y ddau Aelod Cyngor; ac
   (b) Aelod Bannau Brycheiniog

2. Mae hawl gan yr Aelodau bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth.
3. Ond mae paragraff (2) yn berthnasol i Aelodau Bannau Brycheiniog i'r unig raddau fod y mater sydd i'w benderfynu ynghylch swyddogaethau cynllunio strategol.

## 3. Penderfyniad

Yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022, cafodd aelodaeth yr Is-bwyllgorau, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Fannau Brycheiniog, eu cymeradwyo - y Cynghorydd Gareth Ratcliffe a'r Cynghorydd Edwin Roderick ynghyd â Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cynllunio a Lle a Helen Lucocq, Rheolwr Cynllunio a Pholisi a ddirprwywyd i'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol. Yn ychwanegol, cafodd Bannau Brycheiniog ei ddirprwyo i'r Is-bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, ble y mae ganddynt ddwy sedd.

Fel yn ôl yr argymhelliad canlynol o gyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig dyddiedig 31 Gorffennaf 2023.

***"Cytunwyd y byddai Swyddogion yn cwrdd ar wahân, edrych ar gyfreithlondeb a chytuno ar y ffordd ymlaen gan adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf yn Hydref 2023"***

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i adrodd fod Swyddogion, gan gynnwys Swyddogion Monitro ac Adran 151 y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, wedi cwrdd i drafod y mater.

Y consensws a gafwyd gan Swyddogion y Cyd-bwyllgor Corfforaethol oedd os oes yna bwnc penodol o berthnasedd sy'n cael ei drafod gan Is-bwyllgorau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol neu Lesiant Economaidd, yna byddai cynrychiolwyr o Fannau Brycheiniog yn derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol, ond fel yn ôl y ddeddfwriaeth, ni fyddai unrhyw bwerau pleidleisio ganddynt.

## 4. Argymhellion

**Argymhellir** fod Aelodau a/neu Swyddogion o Fannau Brycheiniog ddim yn cael eu cynnwys ar Is-bwyllgorau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Llesiant Economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth.